PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU OEDOLION A CHYMUNEDOL

DYDD MERCHER, 6 MAWRTH 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd McGarry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ahmed, Carter, Goddard, Jenkins, Lent a/ac Molik |

66 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw rai.

67 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw rai.

68 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2019 ac 18 Chwefror 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

69 : STRATEGAETH LLETY POBL HŶN – CYN PENDERFYNU

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn eu galluogi i graffu cyn penderfynu ar Strategaeth Llety Pobl Hŷn 2019 – 2023 y disgwyliwyd iddi gael ei hystyried gan y Cabinet ar 21 Mawrth 2019.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne (yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau); y Cynghorydd Susan Elsmore (yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau) a Claire Marchant (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thorne i wneud datganiad ac ynddo dywedodd ei bod yn falch o allu cyflwyno'r Strategaeth Llety Pobl Hŷn i'r Pwyllgor. Nododd fod y boblogaeth yn heneiddio a bod bodloni'r anghenion hynny mewn ffordd gynaliadwy yn her fawr. Gall tai o ansawdd helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol am hirach, gwella ansawdd bywyd a hefyd lleihau pwysau ar gyllidebau. Mae'r Strategaeth yn nodi sut y caiff ystod o ddewisiadau tai eu cynnig i fodloni anghenion a dyheadau'r boblogaeth hŷn.
Mae cynigion cyffrous ar gyfer datblygu cartrefi newydd ac ar gyfer cartrefi sy'n bodoli eisoes.

Hefyd mae'r strategaeth yn nodi sut bydd y Cyngor yn cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol ac, yn bwysicach, gadw cysylltiad â'u cymuned. Ychwanegodd y Cynghorydd Thorne ei bod yn benodol balch gyda'r cynigion newydd wedi'u nodi yn y strategaeth i wella cyngor a chymorth i bobl hŷn, i'w helpu i wneud y dewisiadau tai cywir ar yr adeg gywir.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Elsmore i wneud datganiad ac ynddo dywedodd ei bod hi am ganmol y strategaeth fel y Cyng. Thorne. Os bydd y Cyngor am gyflawni heriau'r boblogaeth hŷn, yn benodol y rheiny sydd â demensia, yn y dyfodol, yna mae angen iddo gymryd agwedd cyngor cyfan a gweithio'n agos gyda'i

bartneriaid yn yr adran Iechyd a’r Trydydd Sector.  Mae'r Strategaeth hon yn nodi fframwaith wych ar gyfer symud y cydweithio hwn yn ei flaen.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar y Strategaeth Llety Pobl Hŷn ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer cartrefi Parod am Ofal yn ardal Cyncoed a dywedwyd wrthynt fod diffyg tir yng Nghyncoed, pe bai tir ar gael, byddent yn adeiladu.  Roedd mwy o ddarpariaeth yng ngogledd y Ddinas; mae'r rhan fwyaf o gartrefi y Cyngor wedi’u hadeiladu ar dir mae’r Cyngor yn berchen arno.

Nododd yr Aelodau yr agwedd gymunedol a bod angen i bobl hŷn fod yn agosach at siopau a llwybrau bysus, gan nodi bod angen gwaith ar draws adrannau i fynd i’r afael â materion megis siopau’n cau a llwybrau bysus yn cael eu stopio.  Nododd yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau y mater ynghylch trafnidiaeth ledled y Ddinas a dywedodd fod gwaith yn cael ei wneud i edrych i mewn i’r mater, er nad yw hynny yn y Strategaeth. Rhannodd yr Aelod Cabinet y pryderon dros dorri gwasanaethau bysus gan fod hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar bobl hŷn, ychwanegodd y byddai'n dda cynnwys hyn yn yr argymhellion i gael eu rhoi i'r Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth er bod y Cyngor bach yn gyfyngedig o ran y mater hwn. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles eu bod eisoes yn edrych ar sut mae’r Cyngor yn bodloni anghenion unigolion a grwpiau gwahanol ledled y Ddinas; y ffordd mae gwaith yn cael ei gynllunio ar draws portffolios i gysylltu gwasanaethau fel y maent wedi’u lleoli'n lleol o gwmpas cymunedau, gan ei gwneud yn haws i bobl aros yn eu cymuned am hirach.

Nododd yr Aelodau yr elfen cymunedau amrywiol a chredon nhw fod angen ffocws ar hyn er mwyn darparu gofal i’r henoed ledled Caerdydd.  Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau eu bod wedi cynnwys yr angen i fynd i’r afael â grwpiau ethnigrwydd yn benodol ar gyfer dioddefwyr demensia a byddid yn edrych ar hyn yn fuan gan fod angen gwneud llawer mwy.

Credodd yr Aelodau fod y strategaeth yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol, ond nodon nhw’r mater ynghylch byngalos a sut y gellir ysgogi’r farchnad o ran mathau penodol o lety trwy fuddsoddiad; gan nodi y gallai'r Cyngor o bosibl adeiladu a gwerthu byngalos pe bai'n credu bod digon o alw amdanynt. Dywedodd y swyddogion y byddent yn annog partneriaeth i gael cartrefi pobl hŷn i’w gwerthu; mae cymunedau newydd yn cael eu hadeiladu ac mae angen elfennau o dai cymdeithasol/fforddiadwy yn ogystal â llety pobl hŷn i’w werthu; ychwanegodd y swyddogion ei bod yn ddrutach adeiladu byngalos.

Roedd yr Aelodau yn bryderus am swm y cartrefi parod am ofal a chartrefi gofal ychwanegol a gofynnon nhw am y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw.  Esboniodd y swyddogion ystyr parod am ofal a gofal ychwanegol; gan ddweud bod y safonau’n union yr un peth, yr hyn sy’n wahanol yw’r cyfleusterau megis bwyty, nad yw wedi gweithio'n dda iawn mewn rhai modelau.  Mae gan gartrefi Parod am Ofal holl agwedd Gofal Ychwanegol ond mae cynnig cyfle i'w hadeiladu mewn blociau.

Nododd yr Aelodau fod addasu'n cymryd amser hir i berchenogion tai a gofynnon nhw sut roedd y Cyngor yn mynd i’r afael â hyn ers colli’r contractwr.  Esboniodd y swyddogion eu bod wedi cyflogi trydydd contractwr i helpu gyda'u gwneud yn gyflymach; roedd y Broses Werthuso Tendrau wedi'i chwblhau ac roedd rhywun ar fin

gael ei benodi.  Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau ei bod yn rhwystredig eu bod wedi colli'r contract ac yr oedd hi wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad i ymchwilio i pam mae'n cymryd mor hir i fynd trwy'r broses gaffael; gofynnodd yr Aelodau a ellir atgyfnerthu hyn eto'n bryder i'r adran Adolygu Polisi a Pherfformiad.

Credodd yr Aelodau fod rhai pobl hŷn sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain yn anymwybodol bod ganddynt y dewis i wneud cais am lety pobl hŷn a gofynnon nhw am y meini prawf cymhwysedd.  Esboniodd y swyddogion mai dyma un o bwyntiau sefydlu'r uned, i roi'r cyngor a chymorth cywir i bob person hŷn; mae perchen-feddianwyr hŷn yn gymwys i wneud cais am lety a chânt eu hasesu ar eu hangen gan gynnwys eu hangen Iechyd; mae cymhlethdodau di-rif i'w hystyried a gallai'r uned roi cyngor i bobl dros 65 oed sydd mewn iechyd da i gynllunio ar gyfer y dyfodol hefyd.

Gofynnodd yr Aelodau ble roedd y 45 uned Wales and West yn mynd i gael eu hadeiladu yn y Rhath, credodd y swyddogion mai ar y safle wrth ymyl y CRT y byddent yn cael eu hadeiladu ond byddent yn cadarnhau hyn.

Credodd yr Aelodau y dylid ystyried crefydd pobl hŷn, gan gynnwys Cristnogaeth a dywedodd y swyddogion y byddai'r Strategaeth yn helpu gyda'r ffordd y mae'r Cyngor yn bodloni anghenion pobl a dylid defnyddio'r uned i fynd i'r afael â hyn; anghenion i'w bodloni ar sail deg.

Nododd yr Aelodau'r ymgysylltu â Chymdeithasau Tai ond gofynnon nhw a oes unrhyw ymgysylltu â sefydliadau eraill megis cynghorwyr pensiynau neu asiantau tai. Esboniodd y swyddogion na allant roi cyngor ariannol ond os yw person hŷn am gael tŷ llai, gallant roi help trwy ddangos iddo sut i edrych ar dai'n ddigidol megis defnyddio Rightmove ac ati.

Credodd yr Aelodau y dylai'r cyngor a'r cymorth a roddir gan Hybiau gael eu cyfathrebu'n well gan ei bod yn ymddangos bod camsyniad bod y gwasanaethau hyn dim ond i bobl sy'n denantiaid Cyngor neu sydd ar fudd-daliadau.

Credodd yr Aelodau ei bod yn strategaeth wych ond ceision nhw eglurhad ar rannu mathau o dai, gan ofyn a fyddai'r rhaniad hwn yn adlewyrchu'r ymgynghoriad. Dywedodd y swyddogion ei bod yn rhy ddrud adeiladu byngalos; byddai fflatiau un ystafell wely ond mae'r fflatiau'n fawr ac yn wir wedi'u hadeiladu ar yr un maint troed â fflat 2 ystafell wely, felly mae digon o le storio, ystafelloedd ymolchi a cheginau mwy.  Hefyd dywedodd y swyddogion y byddai cartref enghreifftiol ar gael pe bai'r Aelodau yn dymuno ymweld ag ef.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y Polisi Dyraniadau, gan nodi yr ymgynghorwyd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) ar y cynigion a gofynnon nhw a fyddai'n debygol y caiff y Polisi ei newid.  Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod yn anodd nodi beth fyddai'r Polisi, mae angen iddo ystyried anghenion a gofynion yr unigolion ac ar hyn o bryd nid yw'r polisi'n caniatáu hynny; y bwriad yw ystyried pobl hŷn allan o'r polisi ac i ystyried yr anghenion a gofynion ar sail unigol.

Trafododd yr Aelodau addasiadau a gofynnon nhw beth sy'n digwydd pan fo eiddo'n dod yn wag, gan ofyn a ydynt yn wag am gryn amser.  Esboniodd y Swyddogion eu bod yn ceisio dyrannu/paru eiddo trwy ddefnyddio'r gofrestr o gartrefi hygyrch pan

ddeuant ar gael ond nid yw bob amser yn bosibl.  Maent am ailgylchu darpariaethau addasu ac maent yn gweithio gyda Gofal a Thrwsio ar hyn.

Nododd yr Aelodau nad oedd logo Tai Pawb ar y cyflwyniad; dywedodd y swyddogion nad oedd rheswm penodol am hyn ond roedd Tai Pawb yn rhan o'r gwaith.

CYTUNWYD:  Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

70 : CYNLLUN BUSNES ARHC – CYN PENDERFYNU

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod yr eitem hon yn eu galluogi i graffu cyn penderfynu ar Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2019-2020 y disgwyliwyd iddo gael ei ystyried gan y Cabinet ar 21 Mawrth 2019.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lynda Thorne (yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau); Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau); Colin Blackmore (Rheolwr Gweithredol Diogelwch a Gwella Adeiladau) a Gill Brown (Cyfrifydd) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thorne i wneud datganiad ac ynddo dywedodd mai Adroddiad Blynyddol oedd hyn; roedd y cyfyngiad ar godi rhent eleni wedi cael effaith fawr ar y cynllun busnes a phe bai'n parhau, byddai goblygiadau mawr ar adeiladau llety newydd yn y Ddinas.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Roedd yr Aelodau'n bryderus am y llog a godir ar fenthyca yn benodol gyda'r risgiau wedi'u nodi a'u trafod megis ôl-ddyledion rhent, y cap ar rent ac effaith anhysbys Credyd Cynhwysol.  Gofynnodd yr Aelodau am y cynllunio a mapio sydd wedi'u gwneud yn hyn o beth.  Dywedodd swyddogion eu bod wedi gwneud darpariaeth sylweddol o £1biliwn yng nghyllideb 2019/20 ar gyfer y mater ynghylch ôl-ddyledion a byddid yn parhau i adolygu hyn wrth i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno.  Nodwyd fod 30 o flynyddoedd yn amser hir i gynllunio ar ei gyfer; o ran Llog, mae'r rhagwelediad ar sail y Rhaglen Gyfalaf gyfredol, ymrwymwyd yn barod i rai cynlluniau, gallai eraill adael os deuant yn rhy ddrud, byddai hyn yn cael ei adolygu'n gyson.  Cynhaliodd y swyddogion eu barn o ran os bydd CPI yn ogystal â chwyddiant yn aros yn 2.5% wedyn mae'n fforddiadwy.

Trafododd yr Aelodau ôl-ddyledion rhent a'r mater ynghylch yr oedi wrth brosesu ceisiadau Credyd Cynhwysol ymhellach.  Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod y budd-daliadau o fewn y taliad Credyd Cynhwysol wedi'i lleihau hefyd, yn ogystal â rhai ymgeiswyr yn gorfod aros am hyd at 8 wythnos i'w cais gael ei brosesu, felly maent mewn dyled o ddechrau'r broses; mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio banciau bwyd er mwyn bwydo eu teuluoedd.  Ychwanegodd yr Aeloda Cabinet ei bod yn bwysig helpu pobl a dyma ddiben yr Hybiau a'r Gwasanaethau Cyflogaeth.

Nododd yr Aelodau fod rhywfaint o waith yn cael ei wneud i gael rhent wedi'i dalu'n uniongyrchol a'u bod yn gobeithio y byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r mater ynghylch ôl-ddyledion.

Cafodd yr Aelodau eu synnu y gosodwyd disgwyliad ar y codiadau rhent a thybion nhw a oedd galw am fod yn fwy arloesol yn y ffordd mae'r Cyngor yn bwrw'r targedau o adeiladu mwy o gartref Cyngor. Esboniodd y swyddogion, os na dderbynnir incwm, wedyn y bydd angen iddynt adolygu yr hyn a ellir ei ddarparu, gan ychwanegu bod angen i dai fod yn fforddiadwy, mae lefel rhent dros y 40 o flynyddoedd diwethaf wedi effeithio ar hyn. Esboniodd yr Aelod Cabinet fod yr arian ar gyfer tai wedi'i ddiogelu a rhaid gwneud unrhywbeth mae angen i chi ei wneud dim ond trwy ddefnyddio'r incwm – rhent; gan ychwanegu bod rhent Caerdydd yn llai ar ail fand y lefelau rhent ac yn gymharol rhad i Brifddinas. Bydd yr incwm llai'n cael effaith ar adeiladu cartrefi ar gyfer y rhan fwyaf o bobl agored i niwed sydd ar y rhestr aros tai, ar hyn o bryd mae pobl yn rhentu'n breifat, nid ydynt yn gweithio oherwydd ni fyddai modd iddynt fforddio'r rhent pe baent yn gweithio, mae angen mwy o gartrefi cyngor. Tynnodd yr Aelod Cabinet sylw at y Rhaglen Cartrefi Caerdydd fel menter tai arloesol.

Gofynnodd yr Aelodau pam nad yw mwy o eiddo ar wahân yn cael eu hadeiladu ac esboniodd y swyddogion eu bod yn ddrud, un uned o lety a byddai hyn yn golygu pris rhent gosodedig.

Gofynnodd yr Aelodau a oes dewisiadau ar gyfer ailstrwythuro dyled Cyfrif Refeniw Tai yn flynyddol. Esboniodd y swyddogion mai un gronfa gyffredinol yw hi a byddai'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael budd o gyfraddau llog.

Gofynnodd yr Aelodau os bydd y lefelau o fethiannau derbyniol yn effeithio ar y lwfans atgyweiriadau mawr a dywedwyd wrthynt na fyddant.

Trafododd yr Aelodau y mater ynghylch lleithder a bod rhai tenantiaid yn dweud eu bod yn profi lleithder yn eu heiddo ers i gladin gael ei waredu o flociau o fflatiau. Esboniodd y swyddogion yr oedd pwysau i waredu cladin pan ddaethpwyd o hyd i hylosgedd ac mae atgyfeiriadau wedi bod ers y gaeaf am broblemau lleithder. Mae tenantiaid wedi cael arian yn ôl am unrhyw wres ychwanegol roedd ei angen dros y gaeaf ac mae ffurflenni yswiriant wedi'u cyhoeddi am ddifrod i eiddo o ganlyniad i fowld. Roedd ymgynghorydd allanol wedi dechrau monitro'r lleithder trwy ddefnyddio delweddau thermol a disgwylir adroddiad ym mis Mai gydag argymhellion ar gyfer gwella, credir y bydd y rhain yn cynnwys ffenestri ac awyru gwell.

Nododd yr Aelodau y byddai 50 uned dros dro, o'r 1000 o gartrefi, a dywedwyd wrthynt mai cartrefi Defnydd yn y Cyfamser yw hyn, wedi'u hadeiladu o amlwythi llongau, y gellir mewn theori, eu symud o leoliad i leoliad tua 5 gwaith ac maent yn bodloni safonau cyfredol megis cael ysgeintwyr ac ati.

Nododd yr Aelodau fod gan Gynllun Cartrefi Caerdydd 40% o dai fforddiadwy.

Trafododd yr Aelodau ymddygiad gwrthgymdeithasol a nodon nhw fod 7 aelwyd wedi cael eu troi allan o'u cartrefi; gofynnodd yr Aelodau beth sy'n digwydd i bobl sy'n cael eu troi allan, gan dybio a ydynt yn mynd i mewn i gylch o fod yn ddigartref a chael eu hailgartrefu. Esboniodd y swyddogion y byddai'n dibynnu ar bob amgylchedd unigol, yn achos ymddygiad gwrthgymdeithasol ystyrir bod pobl wedi'u gwneud eu hunain yn

ddigartref yn fwriadol; gellir rhoi mwy o fanylion ar achosion penodol i’r Aelodau y tu allan i’r cyfarfod os hoffen nhw eu cael.

Ceisiodd yr Aelodau sicrwydd ar ansawdd cartrefi newydd sy’n cael eu hadeiladu fel y maent yn parhau am amser hir. Rhoddodd yr Aelod Cabinet sicrwydd ar ansawdd y tai i’r Aelodau.

CYTUNWYD: Bod y Cadeirydd ar ran y Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet yn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

71 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chafwyd unrhyw rai.

72 : BUSNES Y PWYLLGOR

Dywedwyd wrth yr Aelodau am y Blaenraglen Waith gyfredol ac amlinellwyd yr eitemau wedi’u cynllunio ar gyfer y cyfarfod ym mis Ebrill. Nododd yr Aelodau fod dwy eitem bosibl arall ar gyfer y cyfarfod hwn ond na fyddent ar eu ffurf terfynol; cytunodd yr Aelodau y gallai’r eitemau hyn aros tan cyfarfod y pwyllgor yn y dyfodol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai’r Panel Perfformiad (sy’n cynnwys y Cyng McGarry a’r Cyng Lent ar hyn o bryd) yn cyfarfod yn fuan a rhoi adborth yn y cyfarfod nesaf.

Nododd yr Aelodau y byddai’r grŵp Gorchwyl a Gorffen Agosach at Gartref (sy'n cynnwys y Cynghorwyr McGarry, Ahmed, Molik a Goddard) yn cyfarfod yn fuan a rhoi adborth mewn cyfarfod yn y dyfodol; nododd yr Aelodau yr oedd sesiwn a gynhaliwyd yn ddiweddar yn ddefnyddiol a byddai gwybodaeth am hyn yn cael ei rhannu gydag Aelodau'r Pwyllgor.

Gofynnwyd i’r Aelodau sut hoffen nhw ddatblygu’r flaenraglen waith yn barhaol a chredon nhw y dylid ysgrifennu at bob Aelod o’r Cyngor i gael syniadau, gellir pwyntio'r rhain at y Pwyllgor Craffu cywir a’u blaenoriaethu.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y pennwyd y Calendr o gyfarfodydd dros dro tan 3 Gorffennaf 2019; byddai mwy o ddyddiadau ac amseroedd eu cadarnhau i baratoi ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y Cyngor. Roedd yr Aelodau’n awyddus i gadw cyfarfodydd ar ddydd Mercher cyntaf bob mis am 4.30 ond nodon nhw y bydd angen newid hyn weithiau i alinio gyda dyddiadau cyfarfod y Cabinet.

Cadarnhaodd nad yw'r Cyng Kelloway ar y pwyllgor mwyach ac y disgwylir i rywun gymryd ei le. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai adolygiad o gydbwysedd gwleidyddol a byddai penodiadau'n cael eu symud ymlaen gyda Chwipiau.

Cafodd yr aelodau ddiweddariad ar y sefyllfa o ran swydd y Prif Swyddog Craffu a dywedwyd wrthynt y byddai rhywun newydd yn y swydd hon erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion ar gyflwyniad graddol; byddai ei rôl yn cynnwys; Datblygu’r flaenraglen waith; y Gorchwyl a Gorffen Agosach at Gartref; y Panel Perfformiad a datblygu’r Adroddiad Blynyddol.

73 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Mercher 3 Ebrill 2019 am 4.30 pm yn Ystafell Bwyllgor 3, Neuadd y Sir, Caerdydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.15 pm